# Hybu Cig Cymru (HCC)

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff ardoll a arweinir gan y diwydiant sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch a gynhyrchir yng Nghymru.

ArloesiAber
AberInnovation

CYSYLLTWCH Â NI: INNOVATE@ABER.AC.UK
ABERINNOVATION.COM
@ABERINNOVATION


Nod HCC yw datblygu a marchnata diwydiant cig Cymru ymhellach drwy amrywiaeth o brosiectau a oedd yn cynnwys y Rhaglen Datblygu Cig Coch (RhDCC). Roedd y RhDDC yn fenter strategol fawr a ariannwyd gan yr UE a Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys tri phrosiect - gan ganolbwyntio ar iechyd anifeiliaid, geneteg ac ansawdd cig, er mwyn sicrhau bod ffermio defaid a chig eidion yng Nghymru yn diwallu anghenion defnyddwyr y dyfodol.

## AMCANION

Mae HCC yn cydweithio â phob sector o'r diwydiant cig coch, gan gynnwys ffermwyr, lladd-dai, cigyddion, manwerthwyr, gwasanaethau bwyd a defnyddwyr. Mae HCC yn gweithio i adeiladu'r diwydiant ac i ddatblygu marchnadoedd proffidiol ar gyfer cig oen Cymreig Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (DDG), Cig Eidion Cymreig DDG a phorc Cymreig.

.





## GWAITH PROSIECT

Mae ymchwil ar rym croeswasgu a lliw Cig Oen Cymreig gydag ArloesiAber ac IBERS wedi darparu asesiad annibynnol o ansawdd y cig. Mae grym croeswasgu'n fesuriad offerynnol o dynerwch priodoledd ansawdd cig. Aseswyd lliw hefyd ac fe'i hystyrir yn ddangosydd allweddol o ymddangosiad ansawdd cig.

Roedd HCC yn darparu'r samplau gyda'r data fferm a charcas gefndirol. Roedd ArloesiAber ac IBERS yn darparu rhagor o wybodaeth, cyfleusterau, gwaith dadansoddi a chofnodi gwyddonol. Mae HCC wedi sicrhau bod sectorau perthnasol o'r gadwyn gyflenwi wedi cael gwybod am y canlyniadau hyn. Mae'r ymchwil wedi arwain at dystiolaeth bellach ynghylch tynerwch a lliw Cig Oen Cymreig ar draws gwahanol dymhorau a rhyweddau'r cig oen. Ceir hyn dystiolaeth wedi ei phennu'n wyddonol ar ansawdd cig sampl o Ŵyn Cymru.

"Mae gwaith ymchwil a datblygu yn ArloesiAber wedi rhoi sylfaen dystiolaeth gref i HCC ar gyfer marchnata a hyrwyddo cynhyrchion cig coch ymhellach."

## HERIAU

- Ymchwil a datblygu i mewn i ffactorau ar y fferm a phrosesu
- Newid polisi domestig a phwysau allanol i leihau'r defnydd o gig
- Newid yn yr hinsawdd
- Pwysau byw yn gyrru gwerthiant cig a phrisiau

## DATRYSIADAU

- Darparu dealltwriaeth a gwybodaeth am wahanol sectorau
- Cymorth gyda marchnata cynnyrch cig coch
- Arbenigwyr datblygu cynnyrch
- Perthynas weithio dda gyda'r farchnad cig domestig a'r farchnad allforio
- Gwella cyfleoedd i'r diwydiant cig coch yng Nghymru
- Tynnu sylw at fanteision iechyd cig coch yn y deiet

## GEIRDA



"Mae ArloesiAber wedi dangos proffesiynoldeb a gwybodaeth academaidd fanwl. Mae'r cyfleusterau sydd wedi'u cyrchu wedi cyflymu'r ymchwil benodol sydd ei angen.

Mae gweithio gydag academyddion fel Dr Sian MacKintosh ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi darparu data manwl a meintiol ar gyfer hybu sylfaen y dystiolaeth ar gyfer manteision cig coch yn y deiet.

Fel rhan o'n cylch gwaith, mae HCC yn darparu ymchwil a adolygir gan gymheiriaid sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac mae'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno mewn cynadleddau academaidd a hefyd wedi'i ledaenu i'r sector cig coch ehangach."

- Dr Eleri Thomas
Swyddog Gweithredol Ansawdd Cig

MEATPROMOTION.WALES
@HYBUCIGCYMRU
FACEBOOK.COM/HYBUCIGCYMRU

UKRI Biotechnology and Biological Sciences Research Council

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY